

CANLLAWIAU

Addysg uwch a chymorth i myfyrwyr: coronafeirws

Gwybodaeth am addysg uwch a chymorth i fyfyrwyr yn ystod y pandemig coronafeirws.

Cynnwys

[Nid wyf yn gallu cael gafael ar Gyllid Myfyrwyr Cymru i drafod fy nghyllid. Ydi'r llinellau ar gau?](#)

[A fydd unrhyw oedi ar daliad cyllid myfyrwyr mis Ebrill?](#)

[Rwy'n wynebu problemau ariannol. Pa gymorth sydd ar gael i mi?](#)

[Rwy'n bryderus ac o dan straen. Pa gymorth sydd ar gael i mi?](#)

[Mae fy Mhrifysgol yn symud at ddysgu ar-lein ar gyfer fy nghwrs \(neu'n darparu gwaith i mi ei gwblhau gartref\). A fyddaf yn parhau i dderbyn cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru?](#)

[Pe bai fy Mhrifysgol yn cau, a fyddwn yn parhau i dderbyn cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru?](#)

[Os byddaf yn sâl, a fyddaf yn parhau i dderbyn cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru?](#)

[Os bydd rhaid i mi hunanynysu, a fyddaf yn parhau i dderbyn cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru?](#)

[Rwyf wedi symud allan o neuadd breswyl/llety rhent preifat i fyfyrwyr. A fydd rhaid i mi dalu rhent am dymor yr haf?](#)

[Rwyf wedi symud allan o neuadd breswyl/llety rhent preifat i rented student](#)

accommodation and moved back to my parents' home. Will I retain the same level of maintenance support?

A fydd fy Mhrifysgol yn darparu darpariaeth ar-lein ar ffurf hygyrch?

Beth fydd yr effaith o ran dysgu, arholiadau ac asesiadau wrth i ddarpariaeth symud oddi wrth addysgu wyneb yn wyneb?

Pa gymorth sy'n cael ei roi i Undebau Myfyrwyr ar hyn o bryd?

Mae fy arholiadau Safon Uwch wedi cael eu gohirio. Sut fydd hynny'n effeithio ar fy nghais i astudio mewn prifysgol?

Mae rhai darparwyr addysg uwch yn newid eu cynigion. Beth ddylwn i ei wneud?

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud am hyn?

Pa adnoddau a fydd ar gael i ddysgwyr, gan fod addysgu wyneb yn wyneb wedi dod i ben? Sut y bydd sefydliadau yn gweithredu i gynorthwyo dysgwyr i ailgychwyn astudio ar ôl y pandemig?

Pa gymorth fydd ar gael i ddysgwyr nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiaduron gartref?

Byddai rhai dysgwyr wedi dechrau cwrs yn rhymor y gwanwyn 2020. Beth fydd yn digwydd i'r rheini?

A yw sefydliadau wedi ceisio nodi pa ddysgwyr sydd angen ystyriaeth arbennig o bosib oherwydd eu hiechyd eu hunain, neu iechyd eu dibynyddion, wrth asesu risg ac addasu gweithdrefnau, yn enwedig gan na fyddant yn mynychu'r sefydliad yn gorfforol mwyach?

Beth sy'n cael ei wneud i gefnogi lles ac iechyd meddwl dysgwyr addysg ôl-16? A oes rôl i gyllid/cyfarwyddyd ychwanegol gan y Llywodraeth i wneud hyn?

Mae angen cefnogi dysgwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, pa ragofalon neu gamau y dylai'r dysgwyr hyn eu cymryd?

Beth fydd yn digwydd i seremonïau graddio?

Pa ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer cyngor fisa Haen 4 sydd ar gael, ac a yw'r ddarpariaeth hon ar gael o bell?

A fydd grantiau myfyrwyr TAR yn cael eu talu ar ôl mis Mai?

Sut bydd sefydliadau yn helpu myfyrwyr sy'n aros yn eu llety? Yn arbennig, myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio, myfyrwyr rhyngwladol, y rhai sy'n hunanynysu a'r rhai mewn llety arlwyo sydd ag ychydig iawn o ofod cegin, os o gwbl?

A fydd myfyrwyr mewn neuaddau preswyl sy'n eiddo i'r brifysgol, adeiladau llety preifat pwrpasol a thenantiaeth neu dai amfeddiannaeth preifat yn gymwys i gael ad-daliad os byddant yn dewis gadael yr eiddo yn gynnar?

Beth fydd yr effaith ar fyfyrwyr ar leoliad, o ran eu cynnydd os nad oes modd iddynt gwblhau asesiadau ymarferol a/neu alwedigaethol?

Mae angen i mi deithio i wagio fy llety myfyrwyr ar ddiwedd fy les. Ydi hyn yn cael ei ganiatáu?

Rwyf eisiau dychwelyd i'm llety adeg tymor o gartref. Ydy hyn yn cael ei ganiatáu?

Beth yw'r sefyllfa o ran ad-dalu ffioedd myfyrwyr i'r rhai sydd eisoes wedi talu ffioedd coleg neu brifysgol yn ystod cyfnod y coronafeirws?

A fydd y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn cael ei addasu yn sgil yr amgylchiadau newydd, ac os felly, sut?

Pa fesurau sy'n fy niogelu rhag cael fy nhroi allan o'm llety?

Sut mae gofalu am iechyd a lles myfyrwyr rhyngwladol?

A fydd ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr yn cael eu gohirio?

Beth sy'n cael ei wneud i reoleiddio addysg uwch yng Nghymru?

Sut mae staff darparwyr addysg uwch yn cael eu cynorthwyo?

Beth yw'r effaith ar weithgarwch tramor a myfyrwyr rhyngwladol?

Unigolion

Nid wyf yn gallu cael gafael ar Gyllid Myfyrwyr Cymru i drafod fy nghyllid. Ydi'r llinellau ar gau?

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, sy'n darparu gwasanaeth Cyllid Myfyrrwyr Cymru, wedi cymryd camau i newid y ffordd y mae'n darparu ei wasanaethau, yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth ynghylch y Coronafeirws.

Mae'r Cwmni wedi sefydlu trefniadau gweithio o bell er mwyn caniatáu i'r staff weithio gartref. Mae'r staff yn cael cymorth tîm craidd o weithwyr allweddol sy'n parhau i ddarparu swyddogaethau swyddfa hanfodol.

Mae'r Cwmni yn parhau i dderbyn a phrosesu ceisiadau myfyrrwyr newydd a myfyrrwyr sy'n dychwelyd, ac mae taliadau cynhaliaeth a ffioedd dysgu yn cael eu prosesu fel arfer.

Mae gwasanaethau'r Ganolfan Gyswllt ar gael ac mae galw uchel amdanynt. Gofynnir i'r myfyrrwyr ddefnyddio eu cyfrifon ar-lein i gysylltu â Cyllid Myfyrrwyr Cymru os oes modd.

[Mae'r cwmni wedi cyhoeddi gwybodaeth i gwsmeriaid ar-lein](https://www.gov.uk/government/organisations/student-loans-company)

(<https://www.gov.uk/government/organisations/student-loans-company>), felly dylech edrych ar yr wybodaeth honno cyn cysylltu.

A fydd unrhyw oedi ar daliad cyllid myfyrrwyr mis Ebrill?

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr, sy'n darparu gwasanaeth Cyllid Myfyrrwyr Cymru, yn cymryd camau i newid eu gwasanaeth i fodloni canllawiau'r Llywodraeth, Mae taliadau blwyddyn academaidd 2019/20 wedi parhau drwy gydol y cyfnod, a disgwylir i bob taliad sydd wedi'i drefnu barhau.

Rwy'n wynebu problemau ariannol. Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Efallai y bydd myfyrrwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol am gysylltu â gwasanaethau caledi neu les myfyrrwyr eu darparwr.

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr wedi rhoi'r gorau i unrhyw weithgarwch casglu dyledion ac ôl-ddyledion am y tro i leddfu unrhyw bwysau ar unigolion ac osgoi rhoi unrhyw bwysau ariannol ychwanegol arnynt ar hyn o bryd.

Rwy'n bryderus ac o dan straen. Pa gymorth sydd ar gael i mi?

Mae Llywodraeth Cymru yn gwybod bod prifysgolion Cymru wedi cynnal nifer o weithgareddau i gefnogi iechyd meddwl a llesiant y myfyrwyr, gyda chymorth cyllid a roddwyd gan Lywodraeth Cymru i CCAUC. Dylai cymorth o'r fath gael ei ymestyn i fyfyrwyr sy'n byw oddi ar y campws, yn ogystal â'r rhai sydd mewn neuaddau preswyl. Dylai myfyrwyr sy'n dioddef pryder a straen gysylltu â gwasanaethau lles myfyrwyr eu darparwr. Mae nifer o elusennau cenedlaethol hefyd ar gael a allai helpu.

Mae fy Mhrifysgol yn symud at ddysgu ar-lein ar gyfer fy nghwrs (neu'n darparu gwaith i mi ei gwblhau gartref). A fyddaf yn parhau i dderbyn cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru?

Mae'r sefyllfa yn newid yn sydyn, a nifer o Brifysgolion yn dechrau dysgu ar-lein, neu ddefnyddio dulliau eraill, i sicrhau bod modd i fyfyrwyr barhau i astudio yn ddi-dor. Dylai eich cymorth i fyfyrwyr barhau beth bynnag. Rydym yn adolygu'r holl bolisiâu cymorth i fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod myfyrwyr a Phrifysgolion yn derbyn cymorth priodol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, sy'n darparu gwasanaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru, yn gweithio'n galed i sicrhau bod taliadau yn cael eu gwneud ar amser.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu bryderon am ddarpariaeth eich cwrs, cysylltwch â'ch Prifysgol.

Pe bai fy Mhrifysgol yn cau, a fyddwn yn parhau i dderbyn cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru?

Nid yw'r Prifysgolion wedi cau, ac maent yn parhau i ddarparu addysg a gwasanaethau i fyfyrwyr. Mae'r sefyllfa yn parhau i newid yn gyflym, ond am y tro, mae Prifysgolion yn gwneud eu gorau i ddarparu gwasanaethau craidd i fyfyrwyr. Rydym yn adolygu'r holl bolisiâu cymorth i fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod myfyrwyr a Phrifysgolion yn cael cefnogaeth briodol.

Os byddaf yn sâl, a fyddaf yn parhau i dderbyn cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru?

Dylech hysbysu eich Prifysgol am unrhyw absenoldeb yn sgil salwch cyn gynted â phosib. Fel arfer, ni fydd cyfnodau byr o absenoldeb yn effeithio ar eich cymorth i fyfyrwyr. Rydym yn adolygu'r holl bolisiâu cymorth i fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod myfyrwyr a Phrifysgolion yn cael cefnogaeth briodol yn ystod y cyfnod hwn.

Os bydd rhaid i mi hunanynysu, a fyddaf yn parhau i dderbyn cymorth gan Cyllid Myfyrwyr Cymru?

Dylech hysbysu eich Prifysgol am unrhyw absenoldeb cyn gynted â phosib. Fel arfer, ni fydd cyfnodau byr o absenoldeb yn effeithio ar eich cymorth i fyfyrwyr. Rydym yn adolygu'r holl bolisiâu cymorth i fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod myfyrwyr a Phrifysgolion yn cael cefnogaeth briodol yn ystod y cyfnod hwn.

Rwyf wedi symud allan o neuadd breswyl/llety rhent preifat i fyfyrwyr. A fydd rhaid i mi dalu rhent am dymor yr haf?

Croesawir y penderfyniad gan rai sefydliadau i ildio costau llety yn rhannol neu'n llwyr.

Cynghorir myfyrwyr i siarad â'r swyddfa llety neu â'r landlord preifat, pa un bynnag sy'n berthnasol, gan mai cytundebau rhwng y myfyriwr a'r brifysgol/landlord preifat yw cytundebau rhentu llety. Dylai sefydliadau gyfathrebu'n glir gyda'r myfyrwyr preswyl ynghylch rhent a gweithredu mewn ffordd deg a thryloyw i weinyddu darpariaeth llety.

Rwyf wedi symud allan o neuadd breswyl/llety rhent preifat i rented student accommodation and moved back to my parents' home. Will I retain the same level of maintenance support?

Rydym yn adolygu'r holl bolisiau cymorth myfyrwyr er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cymorth cywir yn ystod y cyfnod hwn. Ni ddylai myfyrwyr sydd wedi symud yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf weld unrhyw effaith ar eu cymhorthdal y tymor hwn.

A fydd fy Mhrifysgol yn darparu darpariaeth ar-lein ar ffurf hygyrch?

Y Prifysgolion eu hunain sy'n gyfrifol am eu darpariaeth. Fodd bynnag, byddem yn disgwyl iddynt ystyried anghenion eu myfyrwyr a darparu ar ffurfiau amgen a hygyrch. Mae Prifysgolion yn symud yn gyflym i sicrhau bod modd i fyfyrwyr barhau i gyrraedd at y ddarpariaeth, ond os oes gennych anghenion dysgu penodol neu os oes angen cymorth ychwanegol arnoch, dylech gysylltu â'ch Prifysgol cyn gynted â phosib. Os ydych yn derbyn cymorth drwy'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl, dylech drafod eich trefniadau cymorth gyda'ch Prifysgol er mwyn sicrhau bod eich cymorth yn parhau i fodloni eich anghenion a'ch gofynion.

Beth fydd yr effaith o ran dysgu, arholiadau ac asesiadau wrth i ddarpariaeth symud oddi wrth addysgu wyneb yn wyneb?

Y darparwyr addysg uwch eu hunain sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflawni eu darpariaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt ystyried anghenion eu myfyrwyr a darparu ffurfiau amgen a hygyrch o addysgu ac asesu. Dylai myfyrwyr fedru gadael â chymwysterau sy'n adlewyrchiad teg o'u gallu, gan gynnal ansawdd a safonau ar yr un pryd. Ni ddylai unrhyw fyfyrwr gael ei gosbi'n annheg am fod ar flwyddyn olaf ei astudiaeth ynghanol y cyfnod anodd hwn.

Pa gymorth sy'n cael ei roi i Undebau Myfyrwyr ar hyn o bryd?

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod Undebau Myfyrwyr ledled Cymru yn gweithio'n hynod o galed wrth ochr ein prifysgolion i gynnig cymorth, tawelwch meddwl a chynghor i fyfyrwyr a staff. Mae Cymru yn gartref i gymuned amrywiol a rhyngwladol o fyfyrwyr, ac mae gwaith yr Undebau Myfyrwyr (gydag UCMC) yn

dangos ein bod yn parhau i fod yn gartref croesawgar a chefnogol i bob myfyriwr.

Mae fy arholiadau Safon Uwch wedi cael eu gohirio. Sut fydd hynny'n effeithio ar fy nghais i astudio mewn prifysgol?

Os ydych chi wedi gwneud cais drwy UCAS, bydd UCAS yn cysylltu â chi i'ch hysbysu am unrhyw newidiadau sylweddol allai effeithio arnoch chi neu'ch cais gan ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a nodwyd ar eich ffurflen. Gallwch ddiweddarau eich cyfeiriad e-bost gydag UCAS os oes angen.

[Mae Cymwysterau Cymru wedi darparu rhagor o wybodaeth yn dilyn y penderfyniad i beidio cynnal arholiadau ysgolion uwchradd yr haf hwn \(https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/ \).](https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/)

Bydd dysgwyr oedd i fod i sefyll eu harholiadau Safon Uwch yn yr haf yn derbyn gradd deg i gydnabod eu gwaith. Rydym yn disgwyl i ddarparwyr addysg uwch gymryd hyn i ystyriaeth wrth wneud eu cynigion.

Mae rhai darparwyr addysg uwch yn newid eu cynigion. Beth ddylwn i ei wneud?

Nid oes rheswm dros amharu ar y drefn dderbyn arferol. Ni ddylai darparwyr addysg uwch ddechrau rhoi cynigion diamod, ac ni ddylai ymgeiswyr deimlo dan bwysau i dderbyn cynigion o'r fath.

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud am hyn?

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag UCAS a CCAUC i fonitro'r sefyllfa. Gofynnwyd i ddarparwyr addysg uwch beidio newid eu cynigion i fyfyrwyr am bythefnos i gynnal sefydlogrwydd.

Pa adnoddau a fydd ar gael i ddysgwyr, gan fod

addysgu wyneb yn wyneb wedi dod i ben? Sut y bydd sefydliadau yn gweithredu i gynorthwyo dysgwyr i ailgychwyn astudio ar ôl y pandemig?

Er bod addysgu wyneb yn wyneb wedi dod i ben am y tro, mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod colegau a phrifysgolion yn symud i addysgu ar-lein lle bynnag y bo hynny'n bosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn cydweithio â JISC i helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau dysgu ar-lein ymhellach lle bo angen.

Gan y bydd y dulliau gweithredu yn amrywio o'r naill ddarparwr dysgu i'r llall, dylai'r dysgwyr siarad â'u darparwr am eu cwrs penodol nhw.

Pa gymorth fydd ar gael i ddysgwyr nad oes ganddynt fynediad at gyfrifiaduron gartref?

Rydym yn deall bod pob sefydliad yn cymryd camau i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu manteisio ar e-ddysgu, er enghraifft drwy roi benthyg gliniaduron i ddysgwyr nad oes ganddynt gyfleusterau yn y cartref. Dylai dysgwyr allu cael mwy o wybodaeth gan eu darparwr dysgu.

Rydym wedi gofyn i ddarparwyr dysgu flaenoriaethu lles dysgwyr a darparu cymorth a diweddariadau o bell, lle bynnag y bo modd, dros y ffôn, e-bost ac ar-lein.

Byddai rhai dysgwyr wedi dechrau cwrs yn nhymor y gwanwyn 2020. Beth fydd yn digwydd i'r rheini?

Mae pob sefydliad yn gyfrifol am wneud trefniadau ar gyfer y dysgwyr hynny a oedd yn dechrau cyrsiau cyn bo hir.

A yw sefydliadau wedi ceisio nodi pa ddysgwyr sydd angen ystyriaeth arbennig o bosib oherwydd eu hiechyd eu hunain, neu iechyd eu dibynnyddion,

wrth asesu risg ac addasu gweithdrefnau, yn enwedig gan na fyddant yn mynychu'r sefydliad yn gorfforol mwyach?

Mae sefydliadau'n ymwybodol o'u dyletswydd gofal at ddysgwyr, a'u dyletswydd i roi cefnogaeth fugeiliol iddynt, ac maent yn blaenoriaethu cymorth i ddysgwyr sy'n fregus. Mae gan golegau a phrifysgolion dimau gwasanaethau myfyrwyr sy'n arwain ar hyn, a dyma'r timau y dylid cysylltu â nhw gyntaf i gael rhagor o wybodaeth.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisïau cymorth i fyfyrwyr i sicrhau bod myfyrwyr addysg uwch, yn enwedig myfyrwyr rhyngwladol, yn cael cymorth priodol yn ystod y cyfnod hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a phrifysgolion Cymru ar faterion sy'n ymwneud â lles myfyrwyr a bydd yn adolygu polisïau yn unol â hynny. Rydym yn cydnabod bod hwn yn gyfnod anodd i fyfyrwyr a'u bod yn wynebu problemau unigryw.

Beth sy'n cael ei wneud i gefnogi lles ac iechyd meddwl dysgwyr addysg ôl-16? A oes rôl i gyllid/cyfarwyddyd ychwanegol gan y Llywodraeth i wneud hyn?

Gweler uchod. Mae gan sefydliadau broses a gweithdrefnau effeithiol i ofalu am les dysgwyr, ac maent yn darparu cymorth ar-lein lle bynnag y bo modd. Rydym hefyd wedi gofyn iddynt sicrhau bod trefniadau 'cadw mewn cysylltiad' ar waith i helpu dysgwyr drwy gyfnodau o hunanynysu ac ymbellhau cymdeithasol, gan gynnwys dysgwyr seiliedig ar waith y mae eu cyflogwyr wedi cau eu gweithle dros dro.

Mae gan y sectorau addysg bellach ac uwch gyllid i gefnogi iechyd meddwl yn 2020-21, a gellir defnyddio hwn i helpu i feithrin gwydnwch a lles dysgwyr yn ystod y cyfnod presennol o ddysgu o bell ac ymbellhau cymdeithasol.

Mae angen cefnogi dysgwyr proffesiynol ym maes gofal iechyd, pa ragofalon neu gamau y dylai'r

dysgwyr hyn eu cymryd?

Mae pob sefydliad yn gyfrifol am drefnu lleoliadau a lles staff a myfyrwyr yw eu prif flaenoriaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisïau cymorth i ddysgwyr er mwyn sicrhau y caiff dysgwyr eu cefnogi'n briodol yn ystod y cyfnod hwn.

Beth fydd yn digwydd i seremonïau graddio?

Mater i'r sefydliadau unigol yw penderfynu hyn ar sail cyngor y Llywodraeth ar y pryd.

Pa ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer cyngor fisa Haen 4 sydd ar gael, ac a yw'r ddarpariaeth hon ar gael o bell?

Nid yw hyn wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. [Gellir dod o hyd i wybodaeth a chyngor gan Gyngor Materion Myfyrwyr Rhyngwladol y Deyrnas Unedig \(UKCISA\)](https://www.ukcisa.org.uk/Information--Advice/Studying--living-in-the-UK/Coronavirus-Covid-19-info-for-international-students) (<https://www.ukcisa.org.uk/Information--Advice/Studying--living-in-the-UK/Coronavirus-Covid-19-info-for-international-students>).

A fydd grantiau myfyrwyr TAR yn cael eu talu ar ôl mis Mai?

Ni wnaed unrhyw newidiadau i gymorth statudol i fyfyrwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei holl bolisïau cymorth i fyfyrwyr i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cymorth priodol yn ystod y cyfnod hwn.

Sut bydd sefydliadau yn helpu myfyrwyr sy'n aros yn eu llety? Yn arbennig, myfyrwyr sydd wedi ymddieithrio, myfyrwyr rhyngwladol, y rhai sy'n hunanynysu a'r rhai mewn llety arlwygo sydd ag ychydig iawn o ofod cegin, os o gwbl?

Mae sefydliadau yn ymwybodol o'u dyletswydd gofal a'u cyfrifoldeb i roi cymorth bugeiliol i ddysgwyr, ac yn rhoi blaenoriaeth i gymorth i ddysgwyr agored i niwed. Maent yn monitro nifer y myfyrwyr sy'n aros yn y brifysgol neu'r cyffiniau, ac wedi gosod mesurau cymorth ychwanegol yn eu lle ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yn y brifysgol yn bennaf neu sy'n hunanyysu. Mae gan golegau a phrifysgolion dimau gwasanaethau myfyrwyr sy'n arwain ar hyn, ac atynt hwy y dylid troi am wybodaeth bellach yn y lle cyntaf. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisïau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc agored i niwed.

Dylai myfyrwyr sy'n aros yn y brifysgol gadw at gyfyngiadau'r Llywodraeth ar deithio a gweithgarwch awyr agored. [Dylid eu hannog i ddilyn y cyngor a gyhoeddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru](https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/) (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>).

A fydd myfyrwyr mewn neuaddau preswyl sy'n eiddo i'r brifysgol, adeiladau llety preifat pwrpasol a thenantiaeth neu dai amfeddiannaeth preifat yn gymwys i gael ad-daliad os byddant yn dewis gadael yr eiddo yn gynnar?

Rydym yn croesawu penderfyniad rhai sefydliadau i ildio costau llety yn rhannol neu'n llwyr. Cynghorir myfyrwyr i drafod gyda'r swyddog llety neu landlord preifat, fel y bo'n briodol, gan fod y cytundebau rhentu llety rhwng y myfyrwyr a'r brifysgol/landlord preifat. Dylai sefydliadau gyfathrebu'n glir gyda'r myfyrwyr preswyl ynghylch rhent, a gweithredu mewn ffordd deg a thryloyw wrth weinyddu'r ddarpariaeth o lety.

Beth fydd yr effaith ar fyfyrwyr ar leoliad, o ran eu cynnydd os nad oes modd iddynt gwblhau asesiadau ymarferol a/neu alwedigaethol?

Mae Llywodraeth Cymru yn deall bod lleoliadau, gwaith maes, asesiadau galwedigaethol ac ati yn elfennau hanfodol o sawl cwrs. Bydd darparwyr yn rhoi blaenoriaeth i les staff a myfyrwyr. Darparwyr addysg uwch sy'n gyfrifol am gynllunio a chyflawni eu darpariaeth.

Mae angen i mi deithio i wagio fy llety myfyrwyr ar ddiwedd fy les. Ydi hyn yn cael ei ganiatáu?

Er y bydd nifer o fyfyrwyr eisoes wedi teithio adref, bydd eraill yn dal i fod yn eu llety adeg tymor. Dylai myfyrwyr sy'n dal i fod yn eu llety adeg tymor gadw at gyngor presennol y Llywodraeth ar gadw pellter cymdeithasol, gan [lechyd Cyhoeddus Cymru](#) (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/cyngor-hunan-ynysu/>) a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan [Llywodraeth Cymru](#) (<https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau>).

Dylai myfyrwyr gysylltu â'u darparwr llety i drafod a datrys unrhyw faterion sy'n codi. Mae sefydliadau yn ymwybodol o'u dyletswydd gofal tuag at eu myfyrwyr.

Dylai myfyrwyr sy'n ystyried teithio fod yn ymwybodol mai dim ond at ddibenion penodol y caniateir teithio. Caniateir symud tŷ, lle mae angen gwneud hynny ac ni ellir gohirio'r symud. Gall myfyriwr deithio er mwyn symud o'i llety adeg tymor i'w gartref arferol os oes rheswm dros wneud hynny, gan gynnwys gorffen addysgu wyneb yn wyneb, neu ar ôl cyrraedd diwedd ei brydles. Dylai myfyrwyr symud eu holl eiddo er mwyn lleihau'r angen am deithio ychwanegol.

Rwyf eisiau dychwelyd i'm llety adeg tymor o gartref. Ydy hyn yn cael ei ganiatáu?

Dylai myfyrwyr sy'n ystyried teithio fod yn ymwybodol mai dim ond at ddibenion penodol y caniateir teithio. Caniateir symud tŷ, lle mae angen gwneud hynny ac ni ellir gohirio'r symud. Ni ddylai fod angen symud o'ch cartref arferol i ddychwelyd i'ch llety adeg tymor am resymau sy'n gysylltiedig â'ch dysgu, oherwydd bod addysgu wyneb yn wyneb wedi dod i ben i'r rhan fwyaf. Anogir unrhyw fyfyrwr sy'n ystyried teithio oherwydd hyn i gysylltu â'i ddarparwr dysgu, i weld a yw teithio i llety adeg tymor yn fater o reidrwydd. Efallai bod rhesymau eraill dros orfod symud i'r llety adeg tymor.

Beth yw'r sefyllfa o ran ad-dalu ffioedd myfyrwyr i'r rhai sydd eisoes wedi talu ffioedd coleg neu brifysgol yn ystod cyfnod y coronafeirws?

Mae prifysgolion a cholegau Cymru yn parhau i ddysgu myfyrwyr. Mae'r sefyllfa yn parhau i ddatblygu'n gyflym, ac mae prifysgolion yn symud ar fyrder i gyflawni eu hymrwymiaadau i fyfyrwyr.

Ni ddylai myfyrwyr ddisgwyl ad-daliad o'r ffioedd os ydynt yn derbyn addysg a chymorth digonol ar-lein. Anogir myfyrwyr i drafod unrhyw faterion sy'n codi gyda'u sefydliad addysg uwch.

Mae ffioedd yn fater contractiol rhwng y myfyrwyr a'r darparwyr. Fodd bynnag, os nad oes modd i sefydliad ddarparu hyfforddiant digonol ar-lein, nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r sefydliad godi ffioedd dysgu pellach ar fyfyrwyr, gan y byddai unrhyw hyfforddiant sy'n cael ei gynnis yn rhan o'r cwrs mae'r myfyriwr eisoes wedi talu amdano.

Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisïau i sicrhau bod myfyrwyr a phrifysgolion yn cael y cymorth cywir.

A fydd y Lwfans i Fyfyrwyr Anabl yn cael ei addasu yn sgil yr amgylchiadau newydd, ac os felly, sut?

Rydym yn adolygu'r holl bolisïau cymorth i fyfyrwyr er mwyn sicrhau bod myfyrwyr a phrifysgolion yn cael y cymorth cywir yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn gweithredu'n hyblyg wrth weinyddu a gweithredu'r Lwfans i Fyfyrwyr Anabl.

Pa fesurau sy'n fy niogelu rhag cael fy nhroi allan o'm llety?

Yn sgil Deddf Coronafeirws 2020, cynyddwyd cyfnod rhybudd pob gorchymyn troi allan i dri mis. Ers hynny, ataliwyd achosion meddiant tai am 90 diwrnod yn y llysoedd. Mae hynny'n golygu nad oes modd troi unrhyw un allan yn gyfreithlon yn ystod y cyfnod hwn. Gweler ganllawiau [Coronafeirws \(COVID-19\) diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer tenantiaid yn y sector rhentu preifat](https://llyw.cymru/canllawiau-i-denantiad-yn-y-sector-rhentu-preifat-coronafeirws-covid-19) (<https://llyw.cymru/canllawiau-i-denantiad-yn-y-sector-rhentu-preifat-coronafeirws-covid-19>).

Sut mae gofalu am iechyd a lles myfyrwyr rhyngwladol?

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad eithriadol myfyrwyr rhyngwladol i Gymru. Ysgrifennodd y Gweinidog Addysg at brifysgolion Cymru ar 27 Mawrth yn gofyn iddynt sicrhau bod cymorth yn cael ei gynnig i fyfyrwyr sy'n parhau i fod oddi cartref ar yr adeg anodd hwn, ac sy'n debygol o deimlo'n ynysig. Dylid ymestyn cymorth i fyfyrwyr sy'n byw oddi ar y campws yn ogystal â'r rhai sy'n byw yn neuaddau preswyl y prifysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer fawr o fyfyrwyr rhyngwladol sydd wedi penderfynu aros yn y DU, neu sy'n methu teithio adref. Bydd prifysgolion hefyd yn cynnig amrywiol wasanaethau cymorth i fyfyrwyr, gan gynnwys cymorth arlwygo a glanhau, a darparu cymorth iechyd meddwl, sy'n ystyriaeth hanfodol i'r Gweinidog. Dylai myfyrwyr barhau i ddilyn canllawiau iechyd cyhoeddus a gyhoeddwyd gan [lechyd Cyhoeddus Cymru](https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/) (<https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraf-am-coronavirus-newydd-covid-19/>) a [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau) (<https://llyw.cymru/rheoliadau-coronafeirws-canllawiau>).

A fydd ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr yn cael eu gohirio?

Mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi rhoi'r gorau i'w gweithgarwch casglu dyledion am y tro er mwyn lleddfu'r pwysau ar unigolion ac osgoi eu rhoi dan bwysau ariannol ychwanegol yn ystod y cyfnod sydd ohoni. Nid oes cynlluniau i roi'r gorau i gasglu ad-daliadau, sy'n ddibynnol ar incwm – mae'r ad-daliadau yn dod i ben os bydd incwm unigolyn yn syrthio o dan y trothwy ar gyfer ad-dalu.

Darparwyr

Beth sy'n cael ei wneud i reoleiddio addysg uwch yng Nghymru?

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod mewn trafodaethau gyda CCAUC ynghylch

gofynion rheoleiddio sefydliadau yng Nghymru yng ngoleuni'r sefyllfa bresennol. Mae CCAUC yn adolygu'r gofynion hynny.

Sut mae staff darparwyr addysg uwch yn cael eu cynorthwyo?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod sefydliadau wedi bod yn adolygu a gweithredu arferion gwaith ar gyfer staff sy'n caniatáu iddynt gynnal dyletswydd gofal, er enghraifft drwy gadw pellter cymdeithasol, gan sicrhau bod busnes hanfodol yn parhau. Rydym yn siŵr y bydd y sector yn parhau i ddarparu cymorth i staff sy'n hybu eu hiechyd meddwl a'u lles yn y cyfnod sydd ohoni.

Beth yw'r effaith ar weithgarwch tramor a myfyrwyr rhyngwladol?

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod sefydliadau wedi gohirio unrhyw deithiau tramor i staff a myfyrwyr yn unol â chanllawiau presennol y Swyddfa Dramor a Chymanwlad sy'n dweud na ddylai gwladolion Prydain wneud unrhyw daith rhyngwladol nad yw'n hanfodol. Cynghorir pob myfyriwr neu aelod staff sy'n astudio dramor ar gynllun cyfnewid, gan gynnwys cynllun Erasmus+, neu sy'n gweithio dramor dros dro, i ddychwelyd i'r DU tra bod teithiau masnachol yn parhau i fod ar gael, yn unol â chanllawiau presennol y Swyddfa Dramor a Chymanwlad.

Cyhoeddwyd gyntaf

3 Ebrill 2020

Diweddarwyd ddiwethaf

23 Ebrill 2020

Rhan o

[Addysg a gofal plant: coronafeirws \(https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws\)](https://llyw.cymru/addysg-coronafeirws)

